# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

Dydd Iau, 19 Ebrill 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
H.I. Jones a J.G. Prosser
Hefyd yn bresennol fel sylwedydd: Y Cynghorydd E. Williams

**Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol:-**
Mr. E Jones – Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin
Mr. A Morgan – Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Caerfyrddin
Mr. M. Price – Heddlu Dyfed Powys

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Heol Spilman, Caerfyrddin: 10.00 am - 1.25 pm**
**[SYLWER: Yn absenoldeb y Cynghorydd A. Davies, Cadeirydd Is-bwyllgor B, enwebwyd a phenodwyd y Cynghorydd E.G. Thomas yn Gadeirydd].**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. GOHIRIO'R CYFARFOD A'I AILALW YN JACKSONS WINE BAR, JACKSONS LANE, CAERFYRDDIN AM 10:10 A.M. ER MWYN YMGYMRYD AG YMWELIAD SAFLE MEWN CYSYLLTIAD A'R CAIS TRWYDDEDU CANLYNOL:- CAIS AM DRWYDDED SAFLE - JACKSONS WINE BAR, JACKSONS LANE, CARMARTHEN SA31 1QD

Gohiriwyd cyfarfod yr Is-bwyllgor yn Heol Spilman, Caerfyrddin am 10.05am ac ailddechreuwyd y cyfarfod ar y safle am 10.10am, er mwyn gweld y safle lle cafwyd cyfle i weld y cyfleusterau mewnol ac allanol a lleoliad eiddo'r gwrthwynebwyr. Ar ôl i'r ymweliad safle ddod i ben, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Heol Spilman, Caerfyrddin am 10.50am i ystyried y cais.
Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod.
Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor bod cais wedi dod i law gan Jasmine Louise Thomas am drwydded safle mewn perthynas â'r safle uchod i ganiatáu'r canlynol.

Cyflenwi alcohol o ddydd Sul i ddydd Mercher 12:00-23:00, a dydd Iau i ddydd Sadwrn 12:00-01:00

Oriau agor o ddydd Sul i ddydd Mercher 12:00-23:30, dydd Iau i ddydd Sadwrn 12:00-01:30

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-
Atodiad A - Copi o'r cais
Atodiad B - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
Atodiad C - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys
Atodiad D – sylwadau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd

Atodiad E - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Yn dilyn cytundeb yr holl bartïon, dosbarthwyd copïau o ddogfennau ychwanegol i'r Is-bwyllgor a oedd yn cynnwys newidiadau i'r amodau a gynigiwyd gan yr Awdurdodau Cyfrifol – amodau arfaethedig – a chynllun yn nodi lleoliadau eiddo'r gwrthwynebwyr mewn perthynas â'r safle/eiddo yn y cais.
Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad B i'r adroddiad a'r amodau arfaethedig a ddosbarthwyd. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.
Cyfeiriodd cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys at ei sylwadau, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad C i'r adroddiad a'r amodau arfaethedig a ddosbarthwyd. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd at ei sylwadau fel y manylwyd arnynt yn Atodiad D i'r adroddiad a'r amodau arfaethedig a ddosbarthwyd. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi ymgeisydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynghylch y sylwadau a wnaed.

Wedyn, cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan rai o'r bobl eraill a oedd yn mynegi pryderon ac/neu'n gwrthwynebu caniatáu'r drwydded safle am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Atodiad E.
Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.
Ymatebodd yr ymgeisydd i'r pryderon a'r materion a godwyd gan nodi yn dilyn pryderon perchnogion eiddo a busnesau cyfagos ei bod yn tynnu ei chais yn ôl o ran dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher a byddai'n ystyried agor ar y diwrnodau hynny ar sail dymhorol yn unig.
Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Ar hynny
**PENDERFYNODD yr Is Bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwydded roedd yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol wedi cytuno arnynt.**

**Y RHESYMAU:-**
Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Roedd y safle wedi cael trwydded safle o'r blaen o 2005 hyd fis Medi 2017. Ni chafodd unrhyw gamau gorfodi eu cymryd gan yr awdurdod trwyddedu, ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion nac atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod hwn.
2. Nid oedd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd unrhyw gofnodion diweddar ynghylch cwynion am y safle yn ystod y cyfnod trwyddedu blaenorol.

3. Nid oedd dim un o'r Awdurdodau Cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu'r drwydded mewn egwyddor.
4. Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan yr Awdurdod Tân
5. Roedd hanes o droseddau ac anhrefn a niwsans cyhoeddus, yn gysylltiedig â'r safle, ac yn y cyffiniau yn ystod cyfnod y drwydded flaenorol ac ers mis Medi 2017.
6. Roedd y safle mewn lôn gul yn agos i adeiladau preswyl ac adeiladau masnachol.
7. Roedd y safle yng nghyffiniau Stryd y Frenhines a Stryd y Brenin Caerfyrddin, a nodwyd yn y datganiad Polisi Trwyddedu fel mannau problemus o ran troseddau ac anrhefn.
8. Roedd yr ymgeisydd wedi cydsynio i'r mesurau rheoli ychwanegol yr oedd yr Heddlu wedi'u cynnig, ac a ddiwygiwyd.
9. Roedd yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol wedi cytuno ar gyfres o 'amodau posibl' fel y diwygiwyd, er mwyn atal niwsans cyhoeddus.
10. Roedd yr ymgeisydd yn dymuno tynnu'n ôl ei chais o ran dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher.
11. Nid oedd cais wedi ei gyflwyno am ddarparu adloniant rheoledig.

Yn absenoldeb unrhyw sylwadau gan yr Awdurdod Tân nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried unrhyw faterion ynghylch Diogelwch Tân.

Hefyd roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi ystyriaeth i faterion troseddau ac anhrefn yng nghyffiniau'r safle, ond nad oeddynt i'w priodoli'n uniongyrchol i'r safle.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod tystiolaeth y trigolion lleol yn gredadwy ac yn gadarn gan dderbyn bod yr hyn a ddywedwyd ganddynt yn dystiolaeth wirioneddol o droseddau ac anhrefn a niwsans cyhoeddus a oedd yn gysylltiedig â'r safle ac yng nghyffiniau'r safle.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol, gan fod rheidrwydd cyfreithiol arno i wneud hynny. Nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ddigonol i gyfiawnhau gwyro oddi wrth farn yr Is-bwyllgor.

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai caniatáu'r cais, yn amodol ar yr amodau diwygiedig y cytunwyd arnynt rhwng yr ymgeiswyr ac awdurdodau cyfrifol, yn tanseilio'r amcanion trwyddedu o atal troseddau ac anhrefn ac atal niwsans cyhoeddus.

Hefyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr amodau hynny yn briodol er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu ac yn ymateb cymesur i'r problemau a nodwyd. Yn dilyn barn yr awdurdodau cyfrifol nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai'n briodol nac yn gymesur i wrthod y cais yn llwyr.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**